# Anogwr AI

## Fformat:

- Eich rôl (h.y. yr offeryn AI)
- Fy rôl (h.y. yr anogwr)
- Cynulleidfa
- Dull ysgrifennu
- Tasg
- Gwybodaeth
- Allbwn
- Adolygu

## Enghraifft o anogwr:

**Eich rôl:** Rydych chi'n gweithio fel ysgrifennwr copi. Eich cyfrifoldeb chi yw creu cynnwys ar gyfer sianeli gwerthu amrywiol. Canolbwyntiwch ar ddarparu gwerth trwy gynnwys diddorol a chlir y gellir ei ddefnyddio.

**Fy rôl:** Rwy'n berchen ar fusnes twristiaeth yn y Gogledd. Rydyn ni'n lansio cynnyrch newydd, ac mae angen i mi gael y neges werthu yn iawn ar gyfer sianeli gwerthu gwahanol.

**Cynulleidfa:** Ein hailwerthwyr, fel trefnwyr teithiau, asiantau teithio ar-lein, marchnadoedd ar-lein, a chwmnïau rheoli cyrchfannau (DMCs).

**Dull ysgrifennu:**
- Clir, cryno a diddorol
- Cyfeillgar, sgwrsiol, ond proffesiynol
- Hawdd ei ddeall ar gyfer rhai nad ydyn nhw’n siarad Saesneg iaith gyntaf
- Defnyddio sillafu, gramadeg ac ymadroddion Saesneg Prydain
- Osgoi heip, jargon neu ymadroddion ar ffurf AI
- Dim emojis na hashnodau oni bai y nodir hynny

**Cyn ysgrifennu:**
1. Cofiwch ddarllen yr holl gyfarwyddiadau yn ofalus.
2. Ewch ati i gynllunio tôn a strwythur pob allbwn yn seiliedig ar y gynulleidfa a'r pwrpas.
3. Dylech sicrhau bod eich ffeithiau'n gywir ac yn gyson ar draws pob allbwn.
4. Yna ysgrifennwch y saith allbwn gan eu labelu'n glir.

**Tasg:** Rydych chi’n ysgrifennwr copi ar gyfer busnes twristiaeth. Yn seiliedig ar y wybodaeth isod, ewch ati i greu saith testun cryno, ymarferol a pharod i'w defnyddio.

**Gwybodaeth:**
- Rwy'n lansio taith gerdded newydd o'r enw "Conwy Walking Tours".
- Bydd y gwesteion yn cerdded ar hyd muriau'r dref, yn gweld y tŷ lleiaf ym Mhrydain, yn gweld Castell Conwy, ac yn clywed straeon gan rywun lleol.
- Mae’r daith yn cael ei chynnal am 10 o'r gloch bob bore Sadwrn a Sul, mae’n para 60 munud, ac mae ar gael drwy gyfrwng y Saesneg yn unig.
- Mae modd archebu lle hyd at 24 awr ymlaen llaw.
- Canslo am ddim hyd at 24 awr ymlaen llaw.

- Bydd angen gwisgo esgidiau cyfforddus a siaced gwrth-ddŵr.
- Man cyfarfod: o flaen Canolfan Groeso Conwy.
- Ddim yn cynnwys cludiant, bwyd na rhoddion ariannol.

Ewch ati i gyflwyno'r **allbynnau** canlynol. Cyflwynwch bob allbwn dan bennawd clir (e.e. “1. Disgrifiad byr o'r cynnyrch – 75 gair”). Defnyddiwch doriadau llinell rhwng adrannau:

1. Disgrifiad o'r cynnyrch - hyd at 75 gair (ar gyfer llyfrynnau)
2. Disgrifiad o'r cynnyrch - hyd at 150 gair (ar gyfer rhestrau ar-lein)
3. Disgrifiad o'r cynnyrch + pwyntiau bwled (ar gyfer GetYourGuide)
4. Disgrifiad o'r cynnyrch + pwyntiau bwled (ar gyfer Viator)
5. Disgrifiad o'r cynnyrch + pwyntiau bwled (ar gyfer TripAdvisor)
6. Neges LinkedIn yn cyhoeddi lansiad y daith
7. Neges Instagram yn cyhoeddi lansiad y daith (gydag emojis)

Cyn cyflwyno'r allbynnau terfynol, **adolygwch** eich testun eich hun er mwyn sicrhau:

- Eglurder a llif
- Cywirdeb ffeithiol
- Tôn gyson
- Hyd cywir

## Enghraifft o allbwn:

---

### 1. Disgrifiad o'r cynnyrch – hyd at 75 gair (ar gyfer llyfrynnau)

Darganfyddwch straeon, golygfeydd a chyfrinachau Conwy hanesyddol ar daith gerdded dywysedig o awr. Gyda thywysydd lleol, cerddwch ar hyd muriau canoloesol y dref, edmygwch Gastell Conwy, ac ymwelwch â'r tŷ lleiaf ym Mhrydain. Clywch straeon difyr am y gorffennol a mwynhewch olygfeydd gwych o'r dref arfordirol hon. Cynhelir teithiau bob dydd Sadwrn a Sul am 10am. Mae modd archebu hyd at 24 awr ymlaen llaw, gyda chanslo am ddim.

---

### 2. Disgrifiad o'r cynnyrch – hyd at 150 gair (ar gyfer rhestrau ar-lein)

Camwch yn ôl mewn amser a darganfyddwch swyn canoloesol Conwy ar y daith gerdded dywysedig hon o awr. Dan arweiniad tywysydd lleol cyfeillgar, bydd y llwybr yn mynd â chi ar hyd muriau enwog y dref, gyda golygfeydd hardd o Gastell Conwy a'r harbwr. Byddwch yn ymweld â'r tŷ lleiaf ym Mhrydain ac yn clywed straeon sy'n dod â hanes a phobl y dref yn fyw.

Cynhelir y daith bob dydd Sadwrn a Sul am 10am ac mae'n para 60 munud. Cynhelir y daith yn Saesneg ac mae'n addas ar gyfer pob lefel ffitrwydd. Gwisgwch esgidiau cyfforddus a dewch â siaced gwrth-ddŵr. Mae modd archebu hyd at 24 awr ymlaen llaw, gyda chanslo am ddim o fewn yr un cyfnod.

Man cyfarfod: y tu allan i Ganolfan Groeso Conwy.
Sylwer nad yw cludiant, bwyd na rhoddion ariannol wedi'u cynnwys.

---

### 3. Disgrifiad o'r cynnyrch + pwyntiau bwled (ar gyfer GetYourGuide)

**Disgrifiad**

Ymunwch â thywysydd lleol cyfeillgar ar daith gerdded o awr trwy galon Conwy. Cerddwch ar hyd muriau canoloesol y dref, gwelwch Gastell Conwy, ac ymwelwch â'r tŷ lleiaf ym Mhrydain, wrth glywed straeon sy'n adlewyrchu cymeriad y dref hanesyddol hon.

**Uchafbwyntiau**

- Cerdded ar hyd muriau canoloesol Conwy
- Gweld y tŷ lleiaf ym Mhrydain
- Mwynhau golygfeydd o Gastell Conwy a'r harbwr
- Clywed straeon gan dywysydd lleol gwybodus

**Da gwybod**

- Hyd: 60 munud
- Cynhelir teithiau ddydd Sadwrn a Sul am 10am
- Iaith: Saesneg
- Archebu hyd at 24 awr ymlaen llaw
- Canslo am ddim hyd at 24 awr ymlaen llaw
- Man cyfarfod: Canolfan Groeso Conwy
- Argymhellir esgidiau cyfforddus a siaced gwrth-ddŵr
- Ddim yn cynnwys cludiant, bwyd na rhoddion ariannol

---

### 4. Disgrifiad o'r cynnyrch + pwyntiau bwled (ar gyfer Viator)

**Trosolwg**

Archwiliwch strydoedd a thirnodau canoloesol Conwy ar y daith gerdded ddifyr hon o awr. Gyda thywysydd lleol, byddwch yn darganfod muriau'r dref, yn edmygu Castell Conwy, ac yn ymweld â'r tŷ lleiaf ym Mhrydain.

**Beth i'w ddisgwyl**

- Hyd: 1 awr
- Amser cychwyn: 10am (Sadwrn a Sul)
- Iaith: Saesneg
- Archebu hyd at 24 awr ymlaen llaw
- Canslo am ddim hyd at 24 awr cyn cychwyn

**Man cyfarfod**

Y tu allan i Ganolfan Groeso Conwy

**Gwybodaeth ychwanegol**

- Gwisgwch esgidiau cyfforddus a dillad addas ar gyfer y tywydd
- Nid yw'r daith yn addas ar gyfer cadeiriau olwyn
- Ddim yn cynnwys bwyd, diodydd na rhoddion ariannol

---

## 5. Disgrifiad o'r cynnyrch + pwyntiau bwled (ar gyfer TripAdvisor)

**Am y profiad**

Mwynhewch daith gerdded dywysedig trwy dref ganoloesol Conwy a darganfyddwch ei hanes cyfoethog. Edmygwch olygfeydd o Gastell Conwy, cerddwch ar hyd muriau'r dref, ac ymwelwch â'r tŷ lleiaf ym Mhrydain.

**Beth sydd wedi'i gynnwys**

- Tywysydd lleol sy'n siarad Saesneg
- Taith gerdded dywysedig 60 munud

**Cyfarfod a chasglu**

- Man cyfarfod: Canolfan Groeso Conwy
- Mae'r daith yn dechrau am 10am (Sadwrn a Sul yn unig)

**Gwybodaeth ychwanegol**

- Hyd: 1 awr
- Iaith: Saesneg
- Canslo am ddim hyd at 24 awr ymlaen llaw
- Archebu hyd at 24 awr ymlaen llaw
- Argymhellir esgidiau cyfforddus a siacedi gwrth-ddŵr
- Ddim yn cynnwys cludiant, bwyd na rhoddion ariannol

---

## 6. Neges LinkedIn yn cyhoeddi lansiad y daith

Rwy'n falch iawn o gyhoeddi bod ein **Conwy Walking Tours** newydd bellach ar gael i'w harchebu.

Mae'r teithiau cerdded hyn o awr yn archwilio calon hanesyddol Conwy — o furiau canoloesol y dref a Chastell Conwy i'r tŷ lleiaf ym Mhrydain. Dan arweiniad tywysydd lleol cyfeillgar, mae'r daith yn llawn straeon sy'n dod â threftadaeth y dref yn fyw.

Cynhelir teithiau bob dydd Sadwrn a Sul am 10am. Mae modd archebu ar-lein hyd at 24 awr ymlaen llaw, gyda chanslo am ddim.

Cysylltwch os hoffech gynnwys **Conwy Walking Tours** yn eich rhaglenni.

---

### 7. Neges Instagram yn cyhoeddi lansiad y daith (gydag emojis)

Darganfyddwch y gorau o Gonwy ar droed! 👣
Ymunwch â'n **Conwy Walking Tours** newydd i archwilio muriau canoloesol y dref, gweld Castell Conwy 🏰 ac ymweld â'r tŷ lleiaf ym Mhrydain. Clywch straeon lleol sy'n gwneud y dref Gymreig hon mor arbennig.

📍 Yn cychwyn y tu allan i Ganolfan Groeso Conwy
🕙 Sadwrn a Sul am 10am
⏱️ 60 munud
💬 Tywysydd Saesneg
✅ Canslo am ddim hyd at 24 awr ymlaen llaw

Archebwch nawr a cherddwch drwy hanes gyda ni!

---

## Cyngor cyn cloi:

- Cofiwch olygu, ac ail-olygu wedyn, fel bod y testun yn ffeithiol gywir ac yn eich tôn llais chi.
- Newidiwch y rôl i weddu i'r allbwn - er enghraifft, os ydych chi eisiau negeseuon ar gyfer cyfryngau cymdeithasol gwahanol, gwnewch eich Offeryn AI yn "grëwr cynnwys".
- Gallwch wneud y rôl yn un fanwl iawn, er enghraifft: "Rydych chi'n arbenigwr marchnata digidol, gydag 20 mlynedd a mwy o brofiad o weithio ym maes marchnata ar gyfer busnesau twristiaeth."
- Cofiwch, gallwch ofyn i'r offeryn AI ofyn cwestiynau i chi hefyd os nad yw rhywbeth yn glir.